# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5, Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 26 Medi 2022

Amser: 11.30 - 16.10

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12968

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd)<br>Rhys ab Owen AS<br>Alun Davies AS<br>James Evans AS |
| Tystion: | Sir Nicholas Green, Comisiwn y Gyfraith<br>Dr Charles Mynors, Comisiwn y Gyfraith<br>Nicholas Paines, Comisiwn y Gyfraith |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau negyddol arfaethedig nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiadd arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3B

### 2.1 pNeg(6)003 - Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon y dylai'r weithdrefn negyddol fod yn gymwys.

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

### 3.1 SL(6)236 - Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) (Arolygwyr Cymeradwy) (Cymru) 2022

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

### 3.2 SL(6)239 - Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) (Diwygio) 2022

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

### 3.3 SL(6)240 - Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2022

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

### 3.4 SL(6)241 - Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) (Diwygio) 2022

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**4.1 SL(6)233 - Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Rhif 3) 2022**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

**4.2 SL(6)237 - Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Gwladolion Wcreinaidd ac Aelodau o'u Teuluoedd) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022**

The Committee considered the instrument and agreed to report to the Senedd in linBu'r Pwyllgor yn ystyried yr offeryn a chytunwyd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.e with the reporting point identified.

**4.3 SL(6)238 - Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Rhif 2) (Cymru) 2022**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i geisio rhagor o eglurhad gan Lywodraeth Cymru.

**4.4 SL(6)243 - Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Pennu Rhent) (Contractau wedi eu Trosi) (Cymru) 2022**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

**4.5 SL(6)247 - Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2022**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

**4.6 SL(6)256 – Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) 2022**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

**4.7 SL(6)257 – Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2022**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

**4.8 SL(6)258 – Rheoliadau Symud Anifeiliaid Anwes yn Anfasnachol (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2022**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**4.9 SL(6)242 – Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

**4.10 SL(6)244 – Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 2) 2022**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 5 Is-ddeddfwriaeth nad yw'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7

### 5.1 SL(6)234 - Datganiad Blaenoriaethau ac Amcanion Strategol ar gyfer Ofwat a gyhoeddwyd o dan adran 2B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 6 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd yn flaenorol

### 6.1 SL(6)227 - Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio) 2022

Trafododd a nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### 6.2 SL(6)229 - Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022

Trafododd a nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru. Nododd y Pwyllgor hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi tynnu'r Rheoliadau yn ôl a'u disodli â Rheoliadau a drafodwyd gan y Pwyllgor o dan eitem 4.9.

## 7 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

### 7.1 WS-30C(6)011 - Rheoliadau Anifeiliaid, Bwyd, Iechyd Planhigion, Deunyddiau Lluosogi Planhigion a Hadau (Diwygiadau Amrywiol etc.) 2022

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwadadu a chytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am ragor o eglurhad

## 8 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 8.1 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, ac iddo gael ei anfon yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol.

**8.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Anifeiliaid, Bwyd, Iechyd Planhigion, Deunyddiau Lluosogi Planhigion a Hadau (Diwygiadau Amrywiol etc.) 2022**

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog, ac iddo gael ei anfon yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol.

**8.3 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan Weinidog yr Economi: Grŵp Rhyngweinidogol ar Berthnasoedd y DU-UE**

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r llythyr gan y Gweinidog, ac iddo gael ei anfon yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol.

**8.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol (Diwygio) 2022**

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog, ac iddo gael ei anfon yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol.

**8.5 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Prif Weinidog: Uwchgynhadledd Cyngor Prydain-Iwerddon yn Guernsey**

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r llythyr gan y Prif Weinidog, ac iddo gael ei anfon yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol.

**8.6 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig**

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog, ac iddo gael ei anfon yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol.

**8.7 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan Weinidog yr Economi: Fforwm Masnach Gweinidogol**

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r llythyr gan y Gweinidog, ac iddo gael ei anfon yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol.

### 8.8 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Amlder Gwiriadau) 2022

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog.

## 9 Papurau i'w nodi

### 9.1 Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Datganiad ar gynnydd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig.

### 9.2 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid: Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Nododd y Pwyllgor y llythyr a chytunodd i ymateb i'r Pwyllgor Cyllid.

### 9.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelwch Ar-lein

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog.

### 9.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Llywydd: Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog at y Llywydd.

### 9.5 Gohebiaeth gan Dr Robert Jones, Canolfan Llywodraethiant Cymru: Cynnig i gynnal ymchwiliad i anghymesuredd hiliol o fewn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru

Nododd y Pwyllgor y llythyr a chytunodd i'w drafod ymhellach mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**9.6 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Caffael**

Nododd y Pwyllgor y llythyr a chytunodd i ymateb i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

**9.7 Gohebiaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol: Deddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017**

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

**9.8 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Adroddiad Gwerthusiad y Comisiwn Etholiadol o Gynlluniau Peilot Etholiadol Cymru**

Nododd y Pwyllgor y llythyr a’r datganiad ysgrifenedig.

**9.9 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Gwybodaeth yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, 20 Mehefin 2022**

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol.

**9.10 Gohebiaeth gan Bwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi: Ymchwiliad i berthynas y DU a'r UE yn y dyfodol**

Nododd y Pwyllgor y llythyr a chytunodd i ymateb i’r Pwyllgor Materion Ewropeaidd.

**9.11 Gohebiaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau: Cysylltiadau rhynglywodraethol: cynigion ar gyfer Biliau’r DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig**

Nododd y Pwyllgor y llythyr a chytunodd i ymateb i'r Ysgrifennydd Gwladol a oedd newydd ei benodi.

**9.12 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Caffael**

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog.

### 9.13 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Mynediad at gyfiawnder: Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol.

### 9.14 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Offerynnau Statudol sy'n Deillio o Ymadael â'r UE

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol.

### 9.15 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Cytundebau rhynglywodraethol

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol.

### 9.16 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Llywydd: Y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog at y Llywydd.

### 9.17 Gohebiaeth gan Bwyllgor Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant Senedd yr Alban: Effaith Brexit ar Ddatganoli

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Pwyllgor Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant.

### 9.18 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Bil Hawliau

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog at y Llywydd.

## 10 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitemau 11 a 12 ac eitemau 14 i 20

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 11 Cytundebau rhyngwladol

Trafododd y Pwyllgor y cytundebau rhyngwladol a ganlyn:

· Yr Ail Brotocol Ychwanegol i Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Seiberdroseddu ("Confensiwn Budapest")

· Y Protocolau sy'n ymwneud ag ymaelodi'r Ffindir a Sweden â NATO

a chytunodd i drafod ei adroddiad drafft ar y cytundebau mewn cyfarfod yn y dyfodol. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i dynnu sylw Pwyllgorau perthnasol y Senedd at y cytundebau rhyngwladol.

## 12 Adroddiad Monitro

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad monitro diweddaraf.

## 13 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru): Sesiwn dystiolaeth gyda Chomisiwn y Gyfraith

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gomisiwn y Gyfraith (Cymru a Lloegr) ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru).

## 14 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru):Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth a gafwyd gan Gomisiwn y Gyfraith (Cymru a Lloegr) ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru).

## 15 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ysgolion

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Ysgolion y DU, a chytunodd i drafod ei adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 16 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar Fil Banc Seilwaith y DU

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) ar Fil Banc Seilwaith y DU, a chytunodd i drafod ei adroddiad mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 17 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Caffael

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) ar y Bil Caffael, a chytunodd i drafod ei adroddiad mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 18 Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020: Gwaharddiadau o ran gwasanaethau

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Weinidog yr Economi a'r datganiad ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol. Nododd y Pwyllgor yn ffurfiol fod llythyr yn gofyn am ragor o eglurder wedi'i anfon at Weinidog yr Economi.

## 19 Adroddiad blynyddol

Trafododd y Pwyllgor ddrafft o'i adroddiad blynyddol a chytunodd i drafod a chytuno ar fân newidiadau i'r adroddiad y tu allan i'r Pwyllgor.

## 20 Blaenraglen Waith

Trafododd y Pwyllgor faterion yn ymwneud â'i flaenraglen waith, gan gynnwys gohebiaeth gan y Pwyllgor Busnes mewn perthynas â Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) a Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).